PROSES POLISI TRWYDDEDU CYFFREDINOL

POLISI NEWYDD NEU DDIWYGIAD SYLWEDDOL I BOLISI CYFREDOL

CYN YR YMGYNGHORIAD

1. Gwirio gofynion y ddeddfwriaeth ar gyfer cynnal ymgynghoriad
Mae gan rai darpariaethau trwyddedu ofynion ymgynghori statudol

2. Casglu tystiolaeth ac ymgynghoriad anffurfiol
a. Trefnwch yr amserlen gyda'r Pwyllgor Trwyddedu e.e. i gymeradwyo Rhaglen Waith i'r Dyfodol.
b. Nodwch y materion i'w trafod a chyda pwy y dylid ymgynghori ac ati.

3. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb
a. Sgriniwch y polisi/polisïau yn defnyddio Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Os yn berthnasol, cynhaliwch Asesiad Cydraddoldeb llawn. Unwaith mae'r asesiad wedi ei gynnal, cyhoeddwch o ar-lein a chadwch gopi yn y Storfa Ddogfennau Gweithio.

4. Pwyllgor Trwyddedu
Cyflwynwch adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu yn amlinellu'r polisi arfaethedig a chwmpas yr ymgynghoriad arfaethedig. Mae'n rhaid i Aelodau gytuno â'r polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad a chytuno ar gwmpas yr ymgynghoriad.

YR YMGYNGHORIAD

5. Gyda phwy?
Bydd hyn yn dibynnu ar natur y polisi ond, ar y cyfan, dylid ymgynghori â:

- ✔ Dalwyr trwydded
- ✔ Grwpiau busnes/defnyddwyr perthnasol
- ✔ Cynghorwyr Sir
- ✔ Cynghorau Tref a Chymuned
- ✔ Unrhyw ofyniad statudol penodol o fewn y ddeddfwriaeth

6. Cyhoeddusrwydd
Datganiad i'r wasg
Llythyr at ymgynghorai cytûn
Sesiynau galw heibio – lleoliadau a dyddiadau i'w penderfynu yn nes at yr ymgynghoriad.
Unrhyw hysbysiad cyhoeddus statudol

7. Yr Ymgynghoriad

Rhaid cynnal ymgynghoriad am o leiaf 4 wythnos
Rhaid i'r dogfennau fod ar gael mewn llyfrgelloedd a Siopau Un Stop.
Rhaid i'r dogfennau fod ar gael ar-lein gyda chyfleuster ar-lein i ymateb
Rhaid darparu cyfieithiad.

AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

a. Cofnodwch bob ymateb ar ddata-bas
b. Ystyriwch ac ymatebwch i bob sylw

8. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu

Lluniwch adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu ar yr ymgynghoriad ac ar unrhyw newid awgrymedig i'r polisi, er mwyn i'r Pwyllgor gefnogi ac argymell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu.

9. Y Cyngor llawn i fabwysiadu'r Polisi terfynol

Dim ond pan fydd y Cyngor llawn wedi cymeradwyo'r polisi y daw'r polisi yn weithredol. Dylid cynnwys datganiad o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd, y sylwadau a dderbynnir ac ymateb yr awdurdod i'r sylwadau gyda'r polisi cymeradwyedig, naill ai fel atodiad neu fel dogfen ar wahân.

10. Diwygiadau Cyffredinol i'r Polisi Cyfredol

Dylid trafod y diwygiadau arfaethedig yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu.
Dylid hefyd ystyried y gofynion ymgynghori.
Dylai Swyddogion gynnal yr ymgynghoriad a llunio adroddiad i'r Pwyllgor Trwydded er mwyn i'r Aelodau argymell diwygiadau i'r Aelod Arweiniol.
Dylid llunio adroddiad i'r Aelod Arweiniol yn argymell cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi cyfredol.

11. Mân Ddiwygiadau i'r Polisi Cyfredol

Dylai Swyddogion baratoi adroddiad mewnol i'r Pennaeth Gwasanaeth yn nodi'r mân ddiwygiadau i'r polisi.
Y Pennaeth Gwasanaeth i ystyried y diwygiadau i'r polisi a'u gweithredu (os yn briodol).